Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Ebrill 2025
# Yn Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis Cadeirydd; Cyng C W Owen Is-gadeirydd; Cyng J Pierce; Cyng J Griffiths; Cyng D Jones-Morris; Cyng L A James; Cyng M Jones: Cyng A Joyce; Cyng G Owen; y Clerc a'r A S Claire Hughes
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng B. Jones a'r Cyng E Roberts

**3 Croeso / Welcome**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod yn enwedig felly yr Aelod Seneddol Claire Hughes oedd yn ymweld a ni am y tro cyntaf

**Cyfle i drafod materion yr ardal gyda'r A S Claire Hughes**

Diolchodd am ein gwahoddiad i fynychu cyn symud ymlaen i drafod materion oedd y Cynghorwyr yn awyddus i'w trafod gyda hi

**Ysbyty Gwynedd** gafodd y sylw mwyaf

Cyng D Jones-Morris yn adrodd ei bryder am y diffyg Parcio sy'n bodoli yn ogystal a'r gwasanaethau sy'n cael neu ddim yn cael eu cynnig yma a'i bryder bod peryg iddi fod yn ysbyty is-raddol yn fuan iawn hefo dim arbennigedd

Cyng I Ellis yn cyfeirio at y sbwriel sydd yn ardal yr Ysbyty a'r dIffyg cael ymateb i gwynion – tra ei fod yn cymell y dylia bod lle i fedru cyd-weithio

Cyng A Joyce yn dwyn sylw at y llwybr troed sy'n bodoli rhwng yr Ysbyty a Stad Redrow lle mae llawer o drigolion y stad yn cerdded i'w gwaith ond hynny yn anodd iawn yn ystod misoedd y gaeaf

**Cytunodd yr Aelod i drafod y pwyntiau uchod gyda'r Awdurdod Iechyd a dod yn ol gyda'i ymatebion**

Trafodwyd yr **Hwb Iechyd** arfaethedig i Fangor - er ei fod tu allan i ardal Pentir yn gyffredinnol teimlada'r Cynghorwyr oedd - tra ei fod angen nid yw'r Lleoliad yn addas iawn i gleifion oedrannus

**Llwybr Llesiant** Mynegwyd pryder ynglyn a'r holl gynllun yn enwedig o ystyried bod beicwyr yn parhau i ddefnyddio y ffordd fawr a bod ceir yn aml yn cael eu parcio ar y llwybr

Yr Aelod eisioes wedi bod yn trafod hefo Jeremy Miles A S a Ken Skates A S ychwanegodd y Cadeirydd bod Swyddog Trafnidiaeth Gwynedd yn ymweld i drafod nes ymlaen heno

**Cynllunio Diffyg amateb** Cyfeiriwyd at ddau achos penodol - sef safle ar waelod Allt Faenol lle bod yna bellach 'Chalet' wedi ei adeiladu heb fath o gais cynllunio ag mae gweithgaredd yn cael ei gario allan o'r safle ers blynyddoedd bellach

Yr ail safle yw'r datlygu ar gae amaethyddol yn Caerhun. Credir bod achos gorfodaeth wedi ei roi 2022-23 ond y datblygiad yn parhau a chaniatad wedi ei roi i agor adwy i'r ffordd er bod gorchymyn gorfodaeth yn bodoli

Swyddfa archwylio Cymru – Diffyg ymateb – yn dilyn derbyn adroddiad derfynnol o'r Archwilwyr allannol yn cyfeirio at ddiffyg tystiolaeth oedd wedi ei anfon atynt 'roedd y Cadeirydd wedi anfon yn holi am eglurhad ond heb dderbyn eglurhad nac ychwaith gydnabyddiaeth o dderbyn ei lythyr er iddo anfon ddwywaith

**Cytunodd yr Aelod Seneddol y byddai yn cysylltu a'r gwahanol asiantaethau/cyrff a'n diweddaru**

Diolchwyd eto iddi am ei phresennoldeb cyn iddi adael am 8.00 yn ogystal a'r Cyng A Joyce

3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
Yn ol yr arfer Cyng L A James yn datgan ei bod yn ymddirierolwr ar Ganolfan Gymunedol Penrhos
4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Fawrth / March 2025**
Derbynnwyd ar Gynnig Cyng L A James a eilwyd gan Cyng J Pierce
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
Dim na fyddai yn codi o'r materion yn yr Agenda
6. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**

'Roedd mantolen ariannol o fewn y pecyn ddosbarthwyd yn dangos £6,502.77c yn y cyfrif cyfredol a £41,764.03c yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £185.09 mewn llog

   **ii. Cofnodion cyfarfod PC / Minutes of F C 27/03/2025**

Cadarnhawyd y taliadau
Gofrestr Risg wedi ei addasu i gynnwys addurniadau Nadolig yn ogystal a'n cofrestr asedau
Laptop i'r Clerc wedi ei brynu
Bocs blodau yn Caerhun wedi ei ddifrodi – argymell prynu dau newydd i'r lleoliad Cadarnhawyd
Templed Gweithred gan Lightsource wedi ei derbyn a'i rhannu hefo'n cyfreithwyr oedd yn gweld dim problem **Clerc i fynd yn ol at Lightsource i gadarnhau**
Costau Blynyddol y Clerc wedi eu derbyn ac argymell eu talu **Cadarnhau**

   iii. **Polisia** - Gofrestr Risg

Gofrestr Risg wedi ei addasu i gynnwys addurniadau Nadolig yn ogystal a'n cofrestr asedau

**Cynllunio / Planning** Dim gerbron

7. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol** Cyfarfod wedi ei gynnal **-** Llithrad bellach yn yr amserlen ond rhannwyd pryder ynglyn bod y Maes Parcio erbyn hyn i lawr i 37 yn hytrach na'r 60 oedd wedi bod yn cael ei cyfeirio atynt Rhywun annibynnol wedi dylunioar ol derbyn y mesuriadau Anfodlonrwydd wedi ei ddatgan Sylwadau wedi eu derbyn gan ein cyfreithwyr Argymell trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod sawl mater **Clerc i gysylltu a threfnu**
   - **Capel y Fynwent** Wei ei gwblhau arwahan i'r gornel sydd ble bydd 'cegin'
   - **Printar** Clerc wedi bod yn prynnu inc i'r printar ag wedi cael cynnig prynu printar sy'n defnyddio ink o botel fyddai yn rhatach o lawr na'r 'cartridges' i'n printar presennol **Argymell prynu pan fydd y cartridges yma wedi gorffen**
   - **Sedd Wag** Neb wedi holi am etholiad a felly byddwn yn hysbysu ar y We ag yn ein hysbysfyrddau ein bod yn cyfethol
8. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng I Ellis** **Cyflwyniad am drafnidiaeth ardal Penrhos gyda Iwan Ap Trefor** oedd wedi dod draw i'n cyfarfod ag a rannodd y cynllunia oedd ganddo ar bapur
Adroddodd iddo dystio bod y llwybr llesiant sydd wedi ei wneud yn cael ei ddefnyddio ond fwy gan gerddwyr na beicwyr Byddai angen monitro mwy am hynny
'Roedd y cynlluniau oedd ganddo heno am y rhan nesaf sef o fynediad Ysbyty Gwynedd i gyfeiriad Pont Britannia ble 'roedd y ffordd mwy troellog a chul Mae'n hyderus serch hynny bydd yn cyfarch gofynion stadudol trafnidiaeth Byddai troedffordd o ffordd Penrhos lawr i gyfeiriad y bont yn cael ei chreu drwy ledaennu ochr y ffordd bresennol
Pwysleiswyd bwysicrwydd cael croesfan ochr Bangor i gylchfan Ysbyty Gwynedd a chresfan Ysgol y Faenol yn symud rhywfaint tuag at Ysbyty Gwynedd
**Diolchwyd i Iwan am ei gyflwyniad a daeth y Cyfarfod i ben am 9.25**